WG35.5.155

# GALAR GAN

AM Y DIWEDDAR

# MR. JOSUA PROSSER,

*Yr hwn a fu yn Flaenor defnyddiol am amrywiol flynyddau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd,*

YN HERMON, DOWLAIS.

Bu farw Gorphenaf 25, 1849, yn 81 mlwydd o oedran.



GAN IOAN AP IORWERTH,

BWTHYN HEULOG, DOWLAIS.

YN DDWY RHAN:

1af. Ei Hanes fel Dyn. 2il. Ei Hanes fel Cristion.

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

DOWLAIS:

ARGRAFFWYD GAN THOMAS JENKINS.

1859.

X2C5 313662

## Y RHAN GYNTAF.

### Ton—Ymadawiad y Brenin.

1. Holl drigolion Dehau Cymru,
Dewch ynnghyd i gyd alaru,
A myfi sydd yn och'neidio
Am hen gyfaill haeddai 'i gofio,
Rhoddaf i chwi 'nawr fyr hanes,
Unig wrthrych gwych fy nghyffes,
Trwy y pla, doeth wr da,
Sef JOSUA PROSSER,
Wysiwyd ymaith mewn byr amser,
I dir angof er ein trymder.

2. Ganwyd ef yn sir Frycheiniog,
Yn Llwyncelyn, Merthyr Cynog ;
Lle arosodd am flynyddau,
Gyda 'i fam a'i berthynasau ;
Wedi colli 'i dad serchoglan,
Pan nad ydoedd ef ond maban.
Ond bu'n hir, ar y tir,
'N gweithio 'n wir ffyddlon
Gyda 'i geraint a'i gyfeillion,
Yn ngwaith diwyd yr Amaethon.

3. Pan briododd ei fam eilwaith
Penderfynodd ef fyn'd ymaith ;
Er na fedrai Saisnaeg cywrain,
Etto aeth ar daith i Lundain ;
Yno bu am rai blynyddau,
Yn fab heinif coch ei ruddiau ;
Mewn rhyw dy, uchel fri,
Yno 'n cu was'naethi ;
Ond rhyw bryd cadd ei dueddu,
Ddod yn ol i ddolydd Cymru.

W.2941 (P)

4. Pan ddychwelodd o'r dref odiaeth
'N ol i wlad ei enedigaeth,
Ni bu 'n hir cyn penderfynu
Cymryd gwraig o ferched Cymru;
Cafodd hi ger Llanfair Muallt,
Sef Eliza o Fwlch y Ddwyallt—
Merch yn byw gyda Duw,
Ar bob rhyw amserau;
Aml iawn yn ei gweddiau,
Dwys a doeth ei hymbiliadau.

5. Buont fyw mewn dull teuluaidd,
Yn gysurus a charuaidd;
Ond cymerwyd hi gan angau,
A gadawodd blant ag yntau
Yn y gofid mawr a'r galar,
O waith colli 'r Cristion hawddgar.
Ond rhyw dro, fe aeth Jo'
I chwilio am Fari,
Hono gafodd i gydoesi
Am hir flwyddi nes ei cholli.

6. Cadd ychydig o ddysgeidiaeth
Mewn 'sgrifeni a rhifyddiaeth,
Fel y gallai 'n weddol gywrain
Wneud y ddau a hefyd ddarllain.
Yr oedd hyny 'n werthfawr iddo
Pan penodwyd ef i bwyso [mewn machine].
Lawer gwaith, mewn dwy iaith,
Bu yn maith fyfyrio,
Am gyfrifon cywir cryno
Rhwng y Meistr a'r rhai fo 'n gweithio.

7. Yr oedd ef fel dyn naturiol,
Yn syniedydd doeth synwyrol;
Darfu iddo lawer dengwaith
Rhoddi cynghor yn lle cyfraith,
Pan y byddau 'r cymydogion
Mewn ymrafael fel annoethion.
Er mwyn hedd, heb ddwyn cledd,
Caent ei feddwl golau;
A phob amser gwnelai 'i oreu
I gael rhwydd benderfyniadau.

8. Yr oodd ganddo fawr wybodaeth
Am y Senedd a'r Llywodraeth ;
Gwnai draddodi 'n hynod gywrain
Ddull y wlad a dinas Llundain,
Yr oedd hefyd yn ei archwaeth,
Yn gyfarwydd a pheroriaeth ;
Elai 'n mlan, fel y tan,
Pan yn canu 'n hylaw
A'i lais ystwyth yr isalaw,
Ond cyfredin y cyfalaw.

9. Pan yn hen, yn methu gweithio,
Gorchwyl arall gym'rodd arno,
A bu 'n fyddlon hyd yr yrfa,
'N gwerthi te neu lysiau 'r India ;
Ac wrth wneud yr ymdrech hyny
Collodd lawer iawn o'i gysgu.
Byddau 'n ddwys, iawn, a glwys,
Pan yn pwyso 'r llysiau ;
Nes y darfu 'n deg ei ddyddiau,
Ddod i ben, O ! rhyfedd forau.

10. Rhoddai 'n hwylus mewn gwasgfaeon
Elusenau 'n hael i'r tlodion,
Ac, fel cymwynaswr gwiwlan,
Rhoddai fenthig aur ac arian ;
Collodd lawer iawn r'wyn gwybod,
Wrth roi arian yn rhy barod,
I bob rhai, yn y tai,
Lle byddai yn galw ;
Er y ceisiai hwynt yn arw,
Aeth yr oll ar goll—bu farw.

11. Ar y deuddeg pump o ddyddiau
O Orphenaf chwerwaf forau,
Deunaw cant a naw a deugain,
Oedd y flwyddyn flin yn Mrydain,
Yn mhith ereill o blant dynion,
Torwyd yntau i fro 'r meirwon.
O'r fath chwa wnaeth y pla,
Y Colera Morbus,
Ar drigolion ein holl ynys,
Nes eu difa yn ddibetrus.

# YR AIL RHAN.

12. O ! na allwn etto 'n mhellach,
Gael fy awen yn helaethach,
I ddarlunio mewn cyweírdeb
Ei dda wylder a'i dduwioldeb ;
Ond mae 'm doniau i yn methu,
Ac mae 'm teimlad bron a'm trechu,
Gan mor wan 'r wy 'n mhob man,
Nawr o rhan fy ysbryd :
Ond ymdrechaf yn fwy diwyd,
Rhoddi hanes ei holl fywyd.

13. O dan bregeth Richard Lewis,
Mae yn debig cafodd ddewis
Crist a'i groes yn achos pena,
Pan tua deugain oed o yrfa ;
Aeth yn aelod i Bontmorlais,
Pan yn byw mewn cwr o Ddowlais.
'Roedd ei fryd, ar bob pryd,
Fynd i gyd addoli
Ag anwyliaid ffyddlawn Iesu,
Oedd yn byw fel Duwiol deulu.

14. Teithiodd lawer o'i flynyddau,
Dydd a nos a'r holl Sabothau,
Er y garwaf auaf creulawn,
Gwres neu oerni, ef oedd fyddlawn ;
Ac ni fyddau ar un amser
Fel dyn diog yn y gader—
Aethau fwrdd i bob cwrdd,
Oddiwrth dwrdd y teulu,
I gyduno a'r cor mewn canu,
Byddau wrth ei fodd yn gwenu.

15. Yr oedd Dowlais fel yn hollol,
Heb un ysgol fwyn Sabbothol,
Pan ddechreuodd y tad Prosser
Alw'r plant, daeth cant ar fyrder,
Ar y Sul i gael ei dysgu,
Ganddo ef a'r hen dad Josu;
'R 'oent ill dau, yn ddiau,
Yn mwynhau'r fath bleser—
Fel dau ych, yn wych eu hyder,
Dan yr iau ill dau bob amser.

16. Ef oedd ymofynwr ffyddlon,
Yn galw 'n nghyd ei gymydogion,
Ac nid elai ar un amser
Heibio'r tai heb gadw 'i arfer;
Byddai hefyd yn gweddio
Am gael iddynt eu goleuo,
Yn ddifrad, gan y Tad,
Rhag cael gwlad tywyllwch
Yn gartrefle byth heb heddwch,
Mewn mor tanllyd, poen, a thristwch.

17. Cafodd lawer o ofidiau
Ing a chroes o achos angau—
Gym'ryd ei anwylwraig ymaith,
Yntau 'n wylo, a'i blant mewn alaeth:
Ond er hyny darfu iddo
Oll eu magu fel ei eiddo;
Mewn mawr bwys, gwnelau 'n ddwys
Eu cymwys gynghori,
I ochelyd ffyrdd drygioni,
Fel caent Dduw a phob daioni.

18. Fei neullduwyd ef yn flaenor
Yn Mhontmorlais gan y cynghor,
I fugeilio'r defaid gwirion
Oedd yn Nghorlan Eglwys Hermon;
Ac yr ydoedd ef bob amser,
Er cael gorthrymderau lawer,
'N barod iawn, 'n ol ei ddawn,
Yn ei lawn wasanaeth,
Am i bawb gael drachtio 'n helaeth,
O wych afon iechawdwriaeth.

19. Ef oedd eryr craff ei lygaid,
Ac a'i nod fel Benjaminiaid,
D'ywedai' n hy yn erbyn pechod,
A'r fath gosp fuasai 'n dyfod
Ar bob dyn na fyddau 'n weddaidd,
'N ol gair Duw yn byw 'n rheolaidd;
Yn mhob lle, gwlad a thre,
Yr oedd e yn wylaidd,
A'i gynhorion yn garuaidd,
I bawb arddel Duw 'n deuluaidd.

20. Yr oedd hefyd yn ddirwestwr
Doeth a didwyll heb fawr dwndwr;
Carai 'r Eglwys fel ei hunan,
Er bod rhai o arall anian;
Byth ni byddau yn eu barnu
Hyd nes caffai waith ceryddu:
Hyny 'n ddoeth, ac yn goeth,
Nid annoeth neu anghall,
Ar bob pryd yn barnu arall
Eu bod oll fel rhai hanercall.

21. Teithiodd lawer o filldiroedd,
Gwlad a threfydd amryw siroedd,
Ar ei draed y rhan fynycha',
I'r cwrdd misol a'r gymanfa;
Ar ol dychwel rhoddai hanes
Gartre i'r gymdeithas gynes,
Yn bur rhwydd am y llwydd
Wnaeth Arglwydd y fyddin;
Rhoddai hefyd yn gyffredin
Gylch y cyrddau fyddau 'n canlyn.

22. Ow! collasom y gwr llesiol,
Oedd a'i ysgwydd dan bob ysgol;
Mewn daioni fuasai 'n dysgu,
Pawb o'r byd i beidio pechu;
Rhoddai blaid i bob cymdeithas,
Fyddai o sefydliad addas,
Yn y wlad, er mwynhad
A lleshad personol;
A phob pryd a'i fryd egniol,
Mewn modd rhwydd am lwydd ysprydol.

23. Eglwys Hermon sydd mewn alaeth,
'Herwydd colli ei wasanaeth—
Y cu flaenor cywir golau,
Fel pur seren bob amserau;
Dododd angau ni mewn galar,
Pan y cym'rodd un mor hygar
At ei Dduw, mwy i fyw,
Heb unrhyw afiechyd,
Ond gwir foli 'r Oen mewn gwynfyd,
Byth heb wywo yn mro'r bywyd.

24. Gydag ef cymerwyd ymaith
Lawer iawn o'r un gymdogaith—
Brodyr a chwiorydd gwiwlan,
Ceraint hoff i fi fy hunan.
Er fath dristwch gwell distewi,
Ac ymostwng megis Eli;
Ei lais Ef ddaeth o'r Nef,
Oedd y llef a'i galwodd;
At ei Dduw i fyw ehedodd,
Ior o'i boenau a'i derbyniodd.

DIWEDD.

O'r oll a werthir fe a 'r elw
I gynorthwyo dwy hen weddw.

T. JENKINS, ARGRAFFYDD, DOWLAIS.